Film Hub Wales
Canolfan Ffilm Cymru

wavehill™
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Gwnaethpwyd yng Nghymru

Gyda chyllid gan Clwstwr, comisiynwyd Wavehill gan Ganolfan Ffilm Cymru i gynyddu ymgysylltiad â ffilmiau sydd â Chyswllt Cymreig. Y bwriad cyffredinol oedd:

- **Hybu ffilmiau o Gymru**
- **Cynyddu ymgysylltiad cynulleidfa**
- **Datblygu'r sector yng Nghymru**

Rhagfyr 2020.

Delwedd © Youngun / Alex Melhuish (2018)

Delwedd © Anorac / Boom Cymru (2019)

01 Buddion cael Sector Sgrin Gymreig cryf

Y diwydiannau creadigol yw un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru:

58,000 Pobl yn gyflogedig

£1.9bn Trosiant blynyddol

52% Yn fwy o gyflogeion na 10 mlynedd yn ôl

Canlyniadau Economaidd

- Buddsoddiad mewnol i Gymru,
- Mwy o gydnabyddiaeth i Gymru yn rhyngwladol yn arwain at fudd economaidd,
- Cyflogaeth i unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu,arddangos a dosbarthu.

Canlyniadau Diwylliannol

- Cymru sy'n fwy hunanhyderus yn ddiwylliannol,
- Mwy o gydnabyddiaeth i Gymru yn rhyngwladol,
- Platfform ehangach i adrodd straeon Cymru,
- Mwy o gydnabyddiaeth i dalent Cymreig yn rhyngwladol.

Delwedd © Being Frank: The Chris Sievey Story / Altitude Films(2019)

Yr Ymchwil

02

Er mwyn archwilio sut gallai ymgysylltiad cynyddol â ffilmiau sydd â chysylltiad Cymreig gefnogi sector sgrin Cymru, comisiynwyd Wavehill gan Ganolfan Ffilm Cymru i archwilio sut gellir cynyddu ymwybyddiaeth o gynnwys sgrin Cymru, a sut gellir cyflwyno'r neges hon i'r genhedlaeth ddigidol a chefnogi'r sector sgrin yng Nghymru. Mae'r ymchwil wedi archwilio'r rhwystrau sydd i arddangos ffilmiau sydd â chysylltiad Cymreig, y gefnogaeth sydd ar gael i hyrwyddo ffilmiau sydd â chysylltiad Cymreig, a sut y cefnogir arddangos sinema mewn gwledydd eraill.

Delwedd © Britannia / Joanna Quinn (1993)

03

Cryfderau

Yn ystod yr ymchwil hon, buom yn ymgynghori â rhanddeiliaid y sector i ddeall cryfderau sector sgrin Cymru, a'r rhwystrau sy'n atal mwy o ymgysylltiad â ffilmiau o Gymru.

Traddodiad cryf Cymru o adrodd straeon, a'i hunaniaethau diwylliannol cryf

Cryfder y sector animeiddio

Sylfaen sgiliau'r diwydiant, gan gynnwys croesi at y sector teledu (S4C, BBC Cymru Wales)

Mae datblygu arddangos ffilmiau o Gymru, a datblygu'r gefnogaeth farchnata, yn hanfodol i sicrhau bod talent a llais gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru yn cael eu clywed.

Delwedd © Canaries (2017)

Rhwystrau

04

Gweithdrefnau Strwythurol

- Dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gefnogi Ffilm Cymru,
- Diffyg dull cydgysylltiedig rhwng yr asiantaethau hyn (a Llywodraeth Cymru),
- Diffyg ffocws ar sinema o fewn strategaeth ffilmiau Cymreig,
- Diffyg dosbarthwyr yng Nghymru,
- Diffyg gwyliau ffilm ar raddfa fawr (o gymharu ag enghreifftiau eraill o'r DU / yn rhyngwladol) sy'n sgrinio ffilmiau o Gymru, ac yn denu buddsoddiad i Gymru.

Amlygiad / Canfyddiadau

- Angen cynnwys yn yr iaith Gymraeg,
- Hygyrchedd cynnwys,
- Diffyg hunaniaeth / brand Cymreig clir i'w hyrwyddo, gan gynnwys o fewn deunyddiau dosbarthu,
- Canfyddiadau o safon ffilmiau (efallai na fydd cynulleidfaoedd yn gwybod am gysylltiad Cymreig).

Cyflenwad / Ymddygiad y Farchnad

- Dosbarthwyr yn mynnu gosod telerau ar arddangoswyr: e.e. hyd y rhediad,
- Deallusrwydd o werth potensial ffilmiau o Gymru ymhlith dosbarthwyr,
- Ffilmiau heb fod wastad yn hygyrch mewn fformatau sy'n cefnogi lleoliadau cymunedol,
- Cystadleuaeth gan ffilmiau prif ffrwd.

Bwlch yn y Wybodaeth / Data

- Dosbarthwyr sydd heb gysylltiadau â'r sector arddangos,
- Gwybod pa mor gynnar yn oes y ffilm mae'n rhaid ymgysylltu ag arddangoswyr,
- Gwybod ble dangosir ffilmiau sydd â chysylltiad Cymreig,
- Meincnodi i ddeall perfformiad ffilmiau sydd â chysylltiad Cymreig,
- Rhannu gwybodaeth â phartneriaid.

05 Damcaniaeth Newid

Er mwyn mapio sut gallai Gwnaethpwyd yng Nghymru helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn, gwnaethom gynnal sesiwn damcaniaeth newid gyda Chanolfan Ffilm Cymru a rhanddeiliaid eraill yn sector sgrin Cymru. Canlyniad hyn yw'r ddamcaniaeth newid a welir isod, sy'n dangos sut gallai gweithgareddau Gwnaethpwyd yng Nghymru arwain at ganlyniadau gwell i'r sgrin Gymreig.



Adborth o’r Arolwg

06

Hunaniaeth

Buom yn ymgynghori â rhanddeiliaid i gael eu barn ar hunaniaeth ffilmiau o Gymru. At ei gilydd, nid yw rhanddeiliaid yn siŵr fod yna hunaniaeth gref i’r ffilmiau, ond o’r rhai oedd yn meddwl bod, nodwyd ‘iaith’ a ‘tirwedd’ fel y prif asedau.

Dull Cydgysylltiedig

Adroddodd rhanddeiliaid fod angen dull mwy cydgysylltiedig, canolog o gefnogi ffilmiau o Gymru. Er bod llawer o weithgaredd ac ewyllys da o fewn y diwydiant ffilmiau o Gymru, ar brydiau gall fod dryswch ynghylch y cyfrifoldeb amdano.

Brand Ffilmiau o Gymru

64%

yn cefnogi’r syniad*

31% Rhwng dau feddwl am y syniad*

5% Ddim yn cefnogi’r syniad*

> **Mae angen i frand Gwnaethpwyd yng Nghymru fod yn rhywbeth y gall pobl fod yn falch ohono. Mae angen ei hysbysebu’n eang, a’i gael ym mhob canllaw lleoliad, gyda graffeg unffurf fel bod pobl yn gwybod am beth i gadw llygad amdano.**

> **Bydd ymgyrch ymbarél sy’n cefnogi ffilmiau o Gymru yn sicrhau cyfleoedd cyllido ychwanegol, mwy o gysylltedd, capasiti marchnata, ac yn y pen draw yn datblygu mwy o ymwybyddiaeth ar gyfer.**

> **Mae teitlau Cymraeg diweddar fel Gwen a Mr. Jones wedi bod yn llwyddiannus iawn: mae’r elfennau Cymreig wedi bod yn hanfodol wrth dynnu’r torfeydd mawr hyn allan i’r sinema.**

*Yn seiliedig ar ymatebion gan 39 o randdeiliaid

07

Hunaniaeth Gymreig -
Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid:

Astudiaethau Achos:

Er mwyn cefnogi datblygiad y diwydiant sgrin yng Nghymru, rydym wedi casglu rhai enghreifftiau rhyngwladol o arfer da.

08

Sweden:

- Darperir cymorth sgrin gan Sefydliad Ffilm Sweden (SFI), sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth, yn ogystal a threth ar dderbyniadau sinema a chyfraniadau gan rhanddeiliaid y sector.
- Mae'r SFI yn cefnogi ffilmiau o'r cyfnod cynhyrchu hyd at y dosbarthu ac arddangos. Ers 2015, mae pob ffilm lawn o Sweden sydd wedi derbyn cyllid cynhyrchu hefyd yn gymwys i derbyn cyllid lansio.
- Mae gan y SFI adran ryngwladol, sy'n sicrhau bod ffilmiau Sweden yn cael eu hyrwyddo drwy wyliau ffilm, marchnadoedd a digwyddiadau. Maent hefyd yn cynhyrchu 'Swedish Film', cylchgrawn i hyrwyddo ffilmiau Sweden i gynulleidfaoedd ryngwladol.
- Maent yn cyhoeddi data ar y sector yn flynyddol, gan gynnwys dangosyddion diwylliannol ac economaidd.
- Mae'r SFI hefyd yn cefnogi grantiau i gefnogi fformatau hygyrch ar gyfer tua 50 o ffilmiau bob blwyddyn.

Iwerddon:

- Y brif asiantaeth sy'n cefnogi sinema yn Iwerddon yw Screen Ireland, sy'n cefnogi ffilmiau o'r cyfnod cynhyrchu hyd at y cyfnod dosbarthu ac arddangos.
- Mae pob ffilm a ariennir drwy Screen Ireland yn derbyn cymorth mentora i gefnogi eu strategaethau gwerthu a dosbarthu ac mae pob un yn gymwys i gael cymorth dosbarthu.
- Mae Screen Ireland yn cynnig benthyciadau o hyd at 90% (hyd at €75,000) ar gyfer costau hyrwyddo ffilmiau Gwyddelig a benthyciadau dosbarthu uniongyrchol o hyd at 80% (hyd at €15,000) ar gyfer ffilmiau llai, sy'n cael eu had-dalu drwy dderbyniadau tocynnau.
- Mae Screen Ireland yn gweithio gyda 'Usheru' ar eu platfform 'Home for Film' mwyn hyrwyddo ffilmiau Gwyddelig yn rhyngwladol.
- Mae 'Access Cinema' yn rhoi cymorth i leoliadau sinema cymunedol, yn archebu pecynnau o ffilmiau ar eu cyfer a'u cefnogi wrth wneud ceisiadau am gyllid gan Gyngor y Celfyddydau i ddatblygu eu cyfleusterau.
- Mae data domestig ar gael ar wefan Screen Ireland, gan gynnwys y ffilmiau sy'n perfformio orau a'u cyfran o'r farchnad.

Canada:

- Ar lefel genedlaethol yng Nghanada, darperir cymorth ffilm gan Teleffilm Canada (TC). Nod TC yw hyrwyddo talent o Ganada, cefnogi datblygiad y diwydiant, a sicrhau cyllid i'r diwydiant.
- Mae TC yn cefnogi tua 90 o ffilmiau y flwyddyn, ac mae pob un ohonynt yn gymwys i derbyn cymorth gyda dosbarthu ac arddangos.
- Mae TC yn gweithio gyda Gŵyl Ffilm Ryngwladol Toronto (TIFF) i hyrwyddo 'Film Circuit', sy'n ceisio denu'r gorau o sinema Canada a rhyngwladol i gynulleidfaoedd ledled Canada.
- Yn rhyngwladol, mae TC yn cefnogi 'Canada Now', menter y maent yn ei rhedeg gyda Llywodraeth Canada er mwyn hyrwyddo ffilmiau o Ganada mewn marchnadoedd tramor sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth Canada.
- Mae TC yn rhedeg gwasanaeth Seeitall, sy'n gadael i ddefnyddwyr ddarganfod ble y gallant weld ffilmiau o Ganada ar-lein neu mewn sinemâu.
- Rhaid i bob ffilm y mae TC yn cefnogi **gael fersiynau wedi'u isdeitlio (yn Saesneg / Ffrangeg) a rhaid i brosiectau 'Talent Fund' gynnwys fersiwn sain-ddisgrifiad hefyd.**
- Mae data domestig a rhyngwladol ar gael **ar wefan TC, gan gynnwys dangosyddion llwyddiant sy'n cynnwys ffactorau masnachol, diwylliannol a diwydiannol.**

Yr hyn y gall Cymru ei ddysgu o'r enghreifftiau hyn*:

- Mae integreiddio cymorth ar gyfer dosbarthu ac arddangos o fewn cymorth ehangach y maent yn ei ddarparu ar gyfer cynhyrchu yn nodwedd gyffredin yn yr enghreifftiau yma, sydd yn cynnig cefnogaeth i ffilmiau yr holl ffordd drwy eu taith at y sgrin.
- Mae darparu cyllid ychwanegol ar gyfer dosbarthu ac arddangos i ffilmiau sydd eisoes yn derbyn cyllid cynhyrchu yn sicrhau y mwyaf o effaith o'r ran buddsoddiad y wladwriaeth mewn cynhyrchu a sgiliau.
- Mae diffyg dosbarthwyr yng Nghymru yn her i'r sector, rhywbeth sy'n waeth am nad oes cronfeydd data marchnata a dosbarthu fel sydd ar gael mewn tiriogaethau eraill.
- Byddai gwasanaethau gwybodaeth, sy'n caniatáu i gynulleidfaoedd ddysgu ble y gallant weld ffilmiau yn gymharol rad i'w darparu, ac yn helpu i roi gwybod i gynulleidfaoedd ble y gallant weld ffilmiau gyda chysylltiad Cymreig.
- Mae hyrwyddo ffilmiau rhyngwladol fel arfer yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau allforio strategol.
- Byddai casglu a chyhoeddi data am berfformiad ariannol a diwylliannol ffilmiau Cymru yn helpu asiantaethau cymorth i ddeall pa mor dda y mae ei sector yn perfformio, a'r ffordd orau o'i gefnogi yn y dyfodol.



**Mae gwasanaethau cymorth ehangach ar gael i sgrin Cymru drwy'r BFI, y corff arweiniol ar gyfer diwydiant ffilmiau y DU ac ymyraethau chydweithredol drwy strategaeth genedlaethol y BFI. Mae'r ffocws ar wasanaethau yng Nghymru yn yr astudiaeth yma.*

Delwedd © Queerama / Young Soul Rebels - Cynyrchiadau ieie (2017)

Delwedd © The Proud Valley / Studiocanal (1940)

09 Y Camau Nesaf - Yr hyn a ddarganfu'r ymchwil:

Mae rhesymau diwylliannol ac economaidd ynghylch pam y gall mwy o ymgysylltu â ffilmiau Cymreig fod o fudd i Gymru:

Twristiaeth Ffilm | **Mewnfuddsoddi** | **Hyder diwylliannol** | **Cydnabyddiaeth o dalent**

Recommendations:

1. Strategaeth ffilm integredig i Gymru sy'n cynnwys rôl ar gyfer arddangos a dosbarthu.

Dylai Canolfan Ffilm Cymru a rhanddeiliaid eraill (e.e. Ffilm Cymru Wales, Cymru Greadigol dosbarthwyr y DU ac ati) gydweithio i ddatblygu strategaeth sgrin fwy integredig i Gymru, sy'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi arddangos a dosbarthu yn ogystal â buddsoddi mewn sgiliau sy'n cefnogi cynhyrchu ffilmiau. Bydd gwneud mwy i hyrwyddo a datblygu pa mor weledol y mae ffilmiau Cymreig yn ymateb i rhai o'r heriau sy'n wynebu sector sgrin Cymru ac yn arwain at ganlyniadau diwylliannol tymor hwy.

2. Datblygu gwasanaeth gwybodaeth:

Er mwyn cefnogi ymdrechion i arddangos ffilmiau, dylai Canolfan Ffilm Cymru a rhanddeiliaid gasglu, dadansoddi a rhannu data lle y bo'n bosibl, gan weithio mewn partneriaeth â chyrff fel 'Comscore' a'r 'Film Distributors Association'. Gellid defnyddio meincnodi ffilmiau Cymreig er mwyn monitro perfformiad a gwella strategaeth werthuso.

3. Archwilio hunaniaeth Cymru

Dylai Canolfan Ffilm Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol eraill i sefydlu delwedd a hunaniaeth ffilm Gymreig gyffredin fel sail i frand ffilmiau o Gymru. Er bod rhanddeiliaid y sector yn gefnogol ar y cyfan i'r syniad, dylid cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn gyson ag ymdrechion Cymru Greadigol.

Dylai unrhyw ddatblygiad brand yn y dyfodol fod yn gyson â'r themâu sy'n sail i fentrau brandio eraill yng Nghymru, gan gynnwys ffocws ar hanes Cymru, tirwedd a'r cymunedau amrywiol sy'n byw yng Nghymru yn 2020. Er mwyn iddo fod yn effeithiol, mae'n debygol y bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar gyfer brand o'r fath ynghyd ag ymrwymiad gan rhanddeiliaid dosbarthu a rhanddeiliaid eraill, er mwyn i ffilmiau o Gymru gyrraedd marchnadoedd domestig a rhyngwladol ehangach (gan gynnwys drwy wyliau ffilm).

Manylion Cyswllt

@FilmHubWales
www.canolfanffilmcymru.org
hana@filmhubwales.org

/Wavehill1
/wavehilltweets
www.wavehill.com
wavehill@wavehill.com

Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru | THE NATIONAL LOTTERY® | BFI FAN | CHAPTER | inclusive cinema | clwstwr

Delwedd © Eternal Beauty / Bulldog Film Distribution (2020) | www.bulldog-film.com